Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO a gynhaliwyd drwy fideogynadledda ddydd Mawrth, 16 Gorffennaf 2024

YN BRESENNOL: Mr Alan Davies (Cadeirydd) y Cynghorwyr Elizabeth Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans a Mark Strong, ynghyd â Mr Andrew Blackmore a Mrs Caroline Whitby

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Gareth Lloyd

Archwilio Cymru: Mr Jason Blewitt a Mrs Alison Lewis

Swyddogion yn bresennol: Ms Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu a'r Swyddog Monitro; Mr Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael; Ms Stephanie Land, Uwch Archwilydd; Mr Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi a Pherfformiad; Mr Greg Jones, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cymorth Cynnar; Mrs Sarah Groves-Phillips, Rheolwr Corfforaethol -Gwasanaethau Cynllunio; Mrs Katy Sinnett-Jones, Swyddog Llywodraethu; Mrs Dana Jones, Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(2.00pm-3:40pm)

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorydd Ceris Jones ynghyd ag Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Paul Hinge na fedrai ddod i'r cyfarfod am ei fod yn cyflawni dyletswyddau eraill ar ran y Cyngor.

2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Dim.

3 Adroddiad ynghylch Adroddiad Ystadegol Uwch Grwner Ceredigion

Ystyriwyd Adroddiad ynghylch Adroddiad Ystadegol Uwch Grwner Ceredigion ar gyfer 2023 ac Adroddiad y Prif Grwner.

Dywedwyd nad oedd Adroddiad Ystadegol Ceredigion ar gyfer 2023 wedi'i gyhoeddi eto ond bod disgwyl yr adroddiad cyn diwedd mis Mehefin 2024. Byddai'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 8 Hydref 2024. Ychwanegwyd bod Adroddiad Blynyddol y Prif

Grwner ar gyfer 2023 bellach wedi'i gyhoeddi a bod modd gweld yr adroddiad ar ei wefan. Roedd yr adroddiad yn amlinellu canfyddiadau'r Prif Grwner ar gyfer 2023. Roedd y rhain fel a ganlyn:-

- Nid oedd gan y gwasanaeth ddigon o staff
- Roedd yr adnoddau sylfaenol a ddarperir gan wahanol awdurdodau lleol yn amrywio'n fawr ac roedd hyn yn annerbyniol
- Yn gyffredinol, roedd yr angen am fwy o Grwneriaid Ardal cyflogedig yn parhau
- Roedd y 'triongl cyfrifoldeb' yn achosi anawsterau gweithredol
- Roedd y strwythur adnoddau presennol yn effeithio ar annibyniaeth farnwrol
- Roedd trefniadau diogelwch y llysoedd yn amrywio'n fawr ac anaml iawn oedd y trefniadau'n ddigonol
- Roedd y cynnydd yn y gwaith yn ddiweddar yn debygol o fod yn rhywbeth parhaol.
- Oedi
- Cwestau dan arweiniad barnwr
- Penodi crwneriaid
- Cymorth i grwneriaid

Roedd y camau gweithredu fel a ganlyn:-

- ymgysylltu â'r Uwch Grwner a'r awdurdod lleol perthnasol i geisio annog gwelliannau
- herio nifer o gynrychiolwyr awdurdodau lleol ynghylch swyddfeydd a llysoedd annigonol
- annog awdurdodau lleol a heddluoedd i ystyried symleiddio'r model ariannu yn ardaloedd eu crwneriaid, drwy drefnu bod yr awdurdod lleol perthnasol yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros ddarparu a rheoli swyddogion y crwner
- darparu addysg gyffredinol ar faterion cyfansoddiadol sy'n berthnasol i grwneriaid.
- cynlluniau i weithredu'r cynllun archwiliwr meddygol statudol a diwygio'r system ardystio marwolaethau o fis Ebrill 2024 ymlaen
- addysgu awdurdodau lleol ynghylch ystyriaethau diogelwch

Wrth grynhoi, soniwyd am y canlynol:-

- nid oedd llawer o ardaloedd crwneriaid wedi'u moderneiddio eto i adlewyrchu goblygiadau pellgyrhaeddol y diwygiadau cenedlaethol hynny.
- roedd angen newid strwythurol i symleiddio a mireinio trefniadau llywodraethu a rheoli ardaloedd unigol y crwneriaid
- symud i ffwrdd o'r model 'triongl cyfrifoldeb' hen ffasiwn gan fabwysiadu system lywodraethu symlach a mwy effeithlon.
- prinder patholegwyr
- roedd yr adroddiad hefyd yn edrych ar nifer yr achosion oedd wedi bod yn y system am fwy na 12 mis yn 2023 o gymharu â 2022.
- Yn 2023, roedd 10 achos wedi bod yn y system yng Ngheredigion am fwy na 12 mis. 2 oedd y ffigwr yn 2022.

Dywedwyd hefyd fod Prif Grwner newydd wedi'i phenodi ar 25 Mai 2024, sef Ei Hanrhydedd y Barnwr Alexia Durran a hynny am gyfnod o dair blynedd.

Roedd ystadegau cenedlaethol y Crwneriaid ar gyfer 2023 wedi'u cyhoeddi. Roedd yr adroddiad yn dangos bod 36,855 o gwestau wedi'u hagor ledled y Deyrnas Unedig yn 2023 a oedd yn gynnydd o 2% ers 2022. Dyma oedd y nifer uchaf ers dechrau'r cyfnodau blynyddol yn 1995, ac eithrio'r blynyddoedd pan oedd angen ymchwiliadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS). Roedd y marwolaethau yr adroddwyd yn eu cylch a arweiniodd at gwestau yn cyfateb i 19% o'r holl farwolaethau a adroddwyd i grwneriaid yn 2023. 17% oedd y ffigwr yn 2022. Roedd nifer y cwestau a agorwyd fel cyfran o'r marwolaethau a gofnodwyd yn 2023 yn amrywio ar draws ardaloedd y crwneriaid. 4% oedd y ffigwr yng Ngheredigion a 39% oedd y ffigwr yn Lerpwl a Chilgwri. Fodd bynnag, roedd rhan fwyaf ardaloedd y crwneriaid wedi cynnal cwestau ar gyfer rhwng 10% ac 20% o'r holl farwolaethau a gofnodwyd.

Cysylltwyd â Swyddfa'r Crwner i ofyn am y data ynghylch cwestau ar gyfer misoedd cyntaf 2024. Fodd bynnag, nid oedd dim gwybodaeth wedi dod i law hyd yma. Byddai diweddariad yn cael ei roi yn y cyfarfod nesaf ym mis Hydref 2024.

Bu i'r Aelodau ailadrodd eu pryder a'u siom nad oedd y wybodaeth a ofynnwyd amdani yn y cyfarfod ar 12 Mawrth 2024, ar ôl ystyried Adroddiad y Crwner ar gyfer 2022, wedi dod i law, er bod yr Uwch Grwner wedi ymateb i lythyr ar 22 Mawrth yn cadarnhau y byddai'n paratoi adroddiad o fewn y terfyn amser o 3 mis.

CYTUNWYD i nodi cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth.
ntent of the report for information.

4 Polisiau Adnoddau Dynol - Polisi Recriwtio Diogel, Cynllun Prynu Gwyliau Blynyddol , Canllawiau Teithio, Cynhaliaeth a Llety

Roedd y Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth wedi parhau â'r gwaith o adolygu, datblygu a diweddaru polisïau allweddol. Yn dilyn ymgynghoriad, cafodd y polisïau a'r canllawiau canlynol eu trafod a'u diwygio a bu i'r undebau llafur corfforaethol cydnabyddedig gytuno iddynt:

- Polisi Recriwtio Diogel
- Cynllun Prynu Gwyliau Blynyddol
- Canllawiau Teithio, Cynhaliaeth a Llety

Diben pob polisi a gweithdrefn ar gyfer y gweithwyr oedd amlinellu'n glir yr ymddygiad sy'n ofynnol ohonynt ynghyd â'r prosesau a'r gweithdrefnau oedd angen iddynt eu dilyn. Roedd y dogfennau hyn yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r cymorth a'r cyngor oedd ar gael ac roedd yn sôn am y canlyniadau o beidio â glynu wrth y polisi a/neu weithdrefn.

Polisi Recriwtio Diogel

Roedd y Polisi Recriwtio Diogel yn nodi'r safonau yr oedd Cyngor Sir Ceredigion wedi'u gosod ynghylch recriwtio a chadw pobl sy'n dymuno

gweithio gyda grwpiau agored i niwed (plant a/neu oedolion) mewn ffordd ddiogel. Roedd y Polisi cyfredol, a oedd wedi'i gyflwyno yn 2017, wedi'i adolygu i sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'i fod yn addas i'r diben. Dim ond mân newidiadau oedd wedi'u cynnig, ac roedd y rhain yn cael eu nodi isod. Roedd y newidiadau yn cael eu cyflwyno er mwyn sicrhau proses fetio gadarn a thrylwyr ar gyfer yr holl staff, gwirfoddolwyr a chontractwyr sy'n gweithio i Gyngor Sir Ceredigion neu sy'n gweithio gyda Chyngor Sir Ceredigion.

Nid oedd unrhyw newidiadau i'r arfer presennol o gynnal gwiriadau DBS ar ôl i weithwyr gael eu penodi i rolau sy'n cyflawni gweithgarwch a reoleiddir. Dim ond o dan rai amgylchiadau y byddai angen ymgymryd â'r gwaith o ailwirio bob hyn a hyn h.y. pan fyddai'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod angen gwneud hynny neu pan fyddai pryder, cwyn neu wybodaeth yn dod i law ynghylch euogfarn neu rybudd a roddwyd i weithiwr mewn rôl sy'n cyflawni gweithgarwch a reoleiddir.

Roedd y newidiadau arfaethedig i'r Polisi fel a ganlyn:

- Diwygiadau i'r ddogfen am nad yw'r Cyngor yn gorff cofrestredig mwyach. Bellach, cynhelir yr holl wiriadau DBS ar-lein mewn cytundeb â Chyngor Sir Powys fel y corff cofrestredig.
- Eglurder pellach am wiriadau fetio/sgrinio cyn cyflogaeth
- Ail-fformatio'r polisi gan ddarparu adran ar wahân ynghylch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a symud adrannau o'r prif adroddiad i'r atodiadau.
- Mwy o eglurder ynghylch cludadwyedd gwiriadau DBS
- Cael gwared â'r cyfeiriad at y diffiniad a oedd yn bodoli cyn 2012 o weithgarwch a reoleiddir.

Yn ogystal ag ymgynghori â'r undebau llafur, roedd Bwrdd Diogelu Corfforaethol y Cyngor wedi adolygu'r polisi.

Cynllun Prynu Gwyliau Blynyddol

Trefniadau gwirfoddol oedd Cynlluniau Prynu Gwyliau Blynyddol a oedd yn cynnig mwy o hyblygrwydd i weithwyr dros eu hawl i gael gwyliau trwy ganiatáu iddynt brynu gwyliau ychwanegol o dan drefniant ad-dalu cyflog. Roedd y cynlluniau hyn i'w gweld yn eang ar draws sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Byddai'r cynllun yn cynnig arbedion i'r Cyngor am na fyddai dim costau cyflog ar gyfer cyfnod y gwyliau blynyddol ychwanegol ac y byddai gostyngiad yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr. Un o'r buddion i'r gweithiwr fyddai'r cyfle i wasgaru cost absenoldeb di-dâl dros gyfnod o hyd at 12 mis.

Dyma grynodeb o amodau'r cynllun:

- Uchafswm y gwyliau ychwanegol y byddai modd i weithwyr eu prynu fyddai dwywaith eu horiau cytundebol wythnosol
- Byddai'r ceisiadau yn cael eu cymeradwyo gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol.

- Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod cais os penderfynir y byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar y gwasanaeth a ddarperir. Nid oes hawl i apelio.
- Mae modd gwneud ceisiadau trwy gydol y flwyddyn gwyliau blynyddol tan 31 Mai. Os cânt eu cymeradwyo, caiff didyniadau cyflog eu cyfrifo ar sail nifer y misoedd sy'n weddill yn y flwyddyn gwyliau blynyddol.
- Anogir gweithwyr i archebu eu gwyliau blynyddol yn y lle cyntaf.
- Os caiff ei gymeradwyo, caiff y Cynllun Prynu Gwyliau Blynyddol ei gynnwys yn y Polisi Gwyliau ac Absenoldebau, a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 3 Mehefin 2024.

Canllawiau Teithio, Cynhaliaeth a Llety
Cafodd y canllaw i weithwyr mewn perthynas â theithio a chynhaliaeth ei ddiweddaru ddiwethaf yn 2015. Fel rhan o'r broses adolygu, ceisiwyd cyngor gan ymgynghorwyr treth y Cyngor er mwyn sicrhau bod y ddogfen derfynol yn cydymffurfio â rheoliadau Cyllid a Thollau EF.

Roedd y canllawiau diwygiedig yn nodi'r amgylchiadau a fyddai'n caniatáu i weithwyr a oedd yn cyflawni gwaith ar ran y Cyngor (a oedd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor) gyflwyno hawliadau am gostau teithio megis lwfansau milltiroedd, treuliau tanwydd, trafnidiaeth gyhoeddus, cynhaliaeth neu gostau llety.

Rhaid ystyried y dull trafnidiaeth mwyaf economaidd bob amser.

Roedd y newidiadau arfaethedig i'r Canllawiau fel a ganlyn:

- Gwaredu'r "Lwfans te" a dalwyd yn flaenorol am absenoldebau o dros 4 awr i gynnwys rhwng 3pm a 6pm
- Cynyddu'r trothwy uchaf am lety dros nos o £150 i £200 yn Llundain ac o £95 i £120 mewn mannau y tu allan i Lundain. Dylid archebu pob llety dros nos trwy Dîm Caffael y Cyngor. Nid oedd lefel wedi cael ei phennu gan CThEF ar gyfer llety dros nos ac roedd y cynnig i gynyddu'r trothwy yn cael ei gyflwyno yn dilyn gwaith a wnaethpwyd i ddadansoddi'r prisiau presennol ar gyfer llety yn Llundain a thu allan i Lundain.

Yn dilyn trafodaeth a chwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i argymell y canlynol i'r Cabinet:-

- Polisi Recriwtio Diogel
- Cynllun Prynu Gwyliau Blynyddol
- Canllawiau Teithio, Cynhaliaeth a Llety

5 Ystyried y Blaenraglen Waith
CYTUNWYD i nodi'r Flaenraglen Waith fel y'i cyflwynwyd yn amodol ar gyflwyno adroddiad am werthu asedau'r Cyngor yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref 2024.

6 **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion.**

PENDERFYNWYD cadarnhau bod Cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd Carl Worrall yn bresennol yn y cyfarfod.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar Dydd Mawrth, 8 Hydref 2024

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____